**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR** |
| **SUBJECT:** | **CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR - DYDD IAU, 24 MEDI 2020 DYDD IAU, 24 MEDI 2020** |
| **REPORT OF:** | |

---

PRESENT: M. MOORE (CADEIRYDD)

Councillors J. Holt (Deputy Chair)
P. Baldwin
D. Bevan
J. Collins
M. Cook
M. Cross
N. Daniels
D. Davies
G. A. Davies
M. Day
P. Edwards
L. Elias
D. Hancock
K. Hayden
S. Healy
J. Hill
W. Hodgins
J. Mason
H. McCarthy
C. Meredith
J. Millard
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
K. Pritchard
K. Rowson
T. Sharrem
T. Smith
B. Summers
G. Thomas

S. Thomas
H. Trollope
J. Wilkins
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| |
|---|
| Michelle Morris (Swyddog) |
| Richard Crook (Swyddog) |
| Damien McCann (Swyddog) |
| Anne-Louise Clark (Swyddog) |
| Rhian Hayden (Swyddog) |
| Andrea Jones (Swyddog) |
| Sean Scannell (Swyddog) |
| Gemma Wasley (Swyddog) |
| Steve Smith (Swyddog) |
| Lynn Phillips (Swyddog) |
| Bernadette Elias (Swyddog) |
| Lynda Healy (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **<u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u>**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Collier, M. Holland, G. Paulsen a B. Thomas. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD</u>**<br><br>**<u>Llongyfarchiadau</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | - Estynnwyd llongyfarchiadau i Mrs Glenys Weston o Lynebwy a fyddai'n dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ar 10 Hydref 2020.<br>PENDERFYNWYD anfon llythyr priodol.<br><br>**<u>Cydymdeimlad</u>**<br><br>- Mynegwyd cydymdeimlad gyda theulu a ffrindiau Syr Simon Boyle KCVO, Arglwydd Raglaw Gwent 2001-2016 a fu farw'n dawel yn ei gartref ar 4 Medi 2020 yn 79 oed.<br><br>Nododd swyddogion ac aelodau yr achlysur trist hwn gyda distawrwydd byr fel arwydd o barch.<br><br>Nodwyd yr anfonwyd llythyr cydymdeimlad ar ran Aelodau a swyddogion yr awdurdod. | |
| **No. 5** | **<u>LLYFR COFNODION – CHWEFROR-MEDI 2020</u>**<br><br>Cyflwynwyd Llyfr Cofnodion am y cyfnod Chwefror-Medi 2020 i'w ystyried, yn cynnwys:-<br><br>**<u>Eitem Rhif 17 – Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Craffu Adfywio – 8 Medi 2020</u>**<br><br>Dywedodd Aelod y bu cryn dipyn o ddryswch yn y Pwyllgor Craffu Adfywio ddoe lle ystyriwyd y cofnodion uchod. Yn bennaf, roedd y dryswch a'r diffyg dealltwriaeth yn gysylltiedig â'r systemau a phrosesau i ddelio gyda cofnodion mewn 'Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor'. Roedd wedi edrych ar Bwyllgorau blaenorol yn cynnwys Cyfarfodydd Arbennig o'r Pwyllgor Gweithredol ond roedd wedi methu gweld unrhyw gyfarfod arall lle'r oedd y broses wedi digwydd a dywedodd y dylid ceisio eglurhad ar y mater cyn derbyn y cofnodion.<br><br>Yn ychwanegol, codwyd pryder am gydbwysedd a'r adlewyrchiad o'r drafodaeth a ddangosir yn y cofnodion o'r eitem eithriedig derfynol, gan na wnaed unrhyw sôn am y pwyntiau a godwyd am hyfywedd yn gysylltiedig â thynnu asbestos a chyflwr yr adeilad. Bu hefyd gais pan oedd eitem yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Gweithredol (digwyddodd hyn awr ar ôl i'r Pwyllgor Craffu ddod i ben), fod barn y Pwyllgor Craffu yn cael ei chyfleu gyda chais bod yr adroddiad yn parhau mewn statws eithriedig nes y cafodd y | |

materion hyn eu trin. Daeth i ben drwy ategu y dylid ceisio eglurhad ar y materion hyn cyn derbyn y cofnodion ac na fedrai ef yn bersonol dderbyn y cofnodion yn eu ffurf bresennol.

Dywedodd y Cadeirydd mai ei dealltwriaeth hi oedd bod Aelodau o'r Pwyllgor Craffu wedi pleidleisio ar y set neilltuol hon o gofnodion a'u bod wedi eu cadarnhau fel cofnod gywir o'r trafodion. Dywedodd yr Aelod mai ei ddealltwriaeth ef oedd y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Craffu yn cwrdd â'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd i drafod y mater ymhellach.

Atgoffodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau y Cyngor bod Aelodau wedi gofyn yn flaenorol am i setiau o gofnodion gael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf ar gael o'r Pwyllgor Cyfle i'w hystyried, lle bynnag roedd hyn yn bosibl a bod hyn yn cynnwys cyfarfodydd 'Arbennig' o Bwyllgorau.

Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adfywio na fu unrhyw ddryswch am y cofnodion, roedd  Ymgynghorydd wedi cadarnhau ei bod mewn trefn i'r cofnodion gael eu cyflwyno i gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor i gael eu hystyried.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur am yr un reswm a amlinellwyd gan ei gyd-aelod na fedrai yntau dderbyn y cofnodion a mynegodd ei bryder am gyflymder cynhyrchu'r set o gofnodion ac yr aed hefyd ar draws y pwyllgor craffu fel canlyniad.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor nad oedd yn glir iddo lle'r aed ar draws y broses graffu oherwydd fod yr un egwyddor yn union wedi digwydd ar y dydd Llun blaenorol yng nghyswllt yr adroddiad Cyfleuster Pren. Esboniodd y dilynir y broses lle'r oedd materion dadleuol neu faterion o fudd i'r awdurdod oedd angen eu datblygu. Yng nghyswllt yr adroddiad yn ymwneud â Baddonau Pen y Pwll, byddai cynllun busnes wedi edrych os oedd yn ymarferol datrys problem a fu mewn bodolaeth am dros 30 mlynedd a byddai gallu gweithredu yn gyflym yn galluogi swyddogion i symud y broses ymlaen yn gyflymach. Yng nghyswllt adroddiad y Cyfleuster Pren, roedd Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd wedi cysylltu â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol i ddiolch i'r awdurdod am weithredu'n gyflym, oherwydd y byddai hyn yn galluogi'r prosiect i symud ymlaen.

Aeth yr Arweinydd ymlaen drwy ddweud, p'un ai a gynhaliwyd y Pwyllgor Gweithredol 1 awr neu 2 wythnos ar ôl y broses craffu,

bod yn union yr un broses yn cael ei dilyn ac roedd y Cyfansoddiad yn nodi pan oedd angen i'r Pwyllgor Gweithredol ystyried eitem, y dylid gwneud hynny cyn gynted ag oedd yn rhesymol bosibl. Felly, tra bod y Pwyllgor Gweithredol yn cael ei feirniadu am gyflymu'r broses, dywedodd nad oedd y broses craffu wedi ei negyddu mewn unrhyw ffordd.

Eglurodd Arweinydd y Grŵp Llafur ei fod yn cyfeirio at y broses 'galw mewn' oherwydd cyn gynted ag y daeth y Pwyllgor Gweithredol i ben, roedd yr Aelod Gweithredol wedi cyhoeddi datganiad ar y cyfryngau cymdeithasol a'r wasg oedd yn llwyr yn erbyn 'galw mewn'. Dylai Aelodau'r Pwyllgor Craffu fod wedi cael amser i fyfyrio ar yr argymhelliad a wnaethant – felly roedd y broses 'galw mewn' (oedd am gyfnod o 5 diwrnod) wedi ei chroesi'n llwyr oherwydd i'r wybodaeth gael ei rhoi i'r wasg yn syth a gellid tybio fod y mater wedi ei benderfynu'n derfynol.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y broses 'galw mewn' yn parhau yn ei lle ac nad oedd yn amhriodol cyhoeddi stori gadarnhaol i'r wasg, a byddai cynnwys hynny wedi ei awdurdodi cyn ei chyhoeddi. Dywedodd pe byddai wedi bod angen 'galw mewn' neu fod hynny wedi digwydd ac y cafodd rhyw benderfyniad arall ei wneud yn ystod y cyfnod hwnnw, y byddai datganiad i'r gwrthwyneb wedi ei gyhoeddi i'r wasg. Daeth i ben drwy ddweud, er i'r broses benderfynu gael ei chyflymu, nad oedd y broses craffu yn bendant yn cael ei thanseilio.

Atebodd Arweinydd y Grŵp Llafur na fyddai 5 diwrnod ychwanegol wedi gwneud gwahaniaeth ac fel cwrteisi i Aelodau Craffu y dylent fod wedi cael amser i ystyried yr argymhellion a wnaed. Felly, oherwydd hyn h.y. y ffordd yr aed ar draws y broses craffu, ni fyddai'n cefnogi derbyn y cofnodion hyn.

Dywedodd Aelod ei fod yn bryderus am yr opsiynau a gyflwynwyd yn y cyfarfod ac y gwnaed argymhelliad ychwanegol y dylai perchennog y safle fod yn atebol am gost tynnu asbestos a'r eitemau eraill cyn iddo ddod yn wybodaeth gyhoeddus a symud ymlaen i'r cam nesaf. Fodd bynnag, nid oedd yr wybodaeth hon wedi ymddangos yng nghofnodion y Pwyllgor Gweithredol. Mynegodd ei bryder y cafodd y penderfyniad ei ruthro drwy'r broses a dywedodd eto na fedrai'n medru cefnogi derbyn y cofnodion.

Dywedodd Aelod arall y teimlai fod safonau dwbl yn gweithredu a

chyfeiriodd at y trafodaethau yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor parthed datgelu gwybodaeth eithriedig. Daeth i ben drwy ddweud na fedrai gefnogi cymeradwyo'r set hon o gofnodion.

Dywedodd Aelod ei fod wedi cynnig mewn gwirionedd y dylai'r opsiwn a ffafriwyd gael ei gymeradwyo yn y Pwyllgor Craffu a phe bai unrhyw Aelod heb ddymuno cefnogi'r cynnig y gallent fod wedi cyflwyno gwelliant yr adeg honno.

Credai Arweinydd y Cyngor fod y drafodaeth yn awr yn symud ymlaen i barth cyfreithlondeb. Y prif wahaniaeth rhwng y datganiad i'r wasg a'r hyn a ddigwyddodd yn flaenorol yn y Cyngor oedd y cafodd adroddiad cyfrinachol llawn ei gyhoeddi i gyrff allanol oedd yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif. Nid oedd y datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd yng nghyswllt Baddonau Pen y Pwll wedi cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif a byddai'r Aelod Gweithredol a'r Tîm Cyfathrebu wedi gofyn am gymeradwyaeth gan yr Adran Gyfreithiol cyn cyhoeddi'r wybodaeth.

Dechreuodd y Pennaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol drwy ddweud ei bod yn ymwybodol o'r ohebiaeth rhwng Arweinydd y Grŵp Llafur a'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn ymwneud â materion o amgylch eitemau eithriedig – roedd peth dryswch am beth yw eitemau eithriedig a'u statws a rheolau cyfrinachedd oedd hefyd yn cydblethu. Dywedodd y swyddog ei bod yn y broses o baratoi nodyn gwybodaeth i bob Aelod i gynghori ar fater eitemau eithriedig. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn golygu oherwydd fod adroddiad yn eithriedig na fedrid ei drafod o gwbl. I aelodau'r wasg a'r cyhoedd roedd eithriad yn weithredol ond mae'n amlwg nad oedd yn weithredol i ddialog a thrafodaethau mewnol ac unwaith y gwnaed penderfyniad yn aml roedd datganiad i'r wasg wedi'i reoli yn addas i hysbysu'r cyhoedd a'r wasg am fwriadau'r Cyngor.

Yng nghyswllt cymeradwyo cofnodion, cadarnhaodd y swyddog unwaith y cyflwynwyd cofnodion i naill ai gyfarfod arbennig neu gyfarfod aferol o Bwyllgor Craffu, y byddent yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cadarnhau a dyna oedd y broses bresennol. Deallwyd y cynhaliwyd pleidlais yn y Pwyllgor Craffu ac iddi gael ei chario. Roedd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol yn cydnabod fod nifer o Aelodau eisiau i'w gwrthwynebiad gael ei gofnodi yn y cofnodion ond dywedodd ei bod yn ansicr beth oedd sail y gwrthwynebiad – os yw'r cofnodion yn ffeithiol anghywir, dylai Aelodau nodi beth oedd y camsyniadau ffeithiol.

| | | |
|---|---|---|
| | Mewn ateb i gwestiwn pryd nad oedd eitem eithriedig yn eitem eithriedig, cadarnhaodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chadarnhaol fod yr adroddiad wedi ei eithrio o olwg y wasg a'r cyhoedd ar adeg penodol ond ategodd nad oedd hyn yn golygu o reidrwydd na ddylai'r pwnc ei hunan gael ei drafod – nodwyd fod angen trafod pwnc er mwyn symud ymlaen â phrosiect. Daeth i ben drwy ddweud y byddai'n cylchredeg nodyn i bob Aelod ar y mater hwn cyn gynted ag sy'n bosibl ac yn cynnull sesiwn fer MS Teams bryd hynny.<br><br>Gofynnodd y Cynghorwyr J.C Morgan, H. Trollope a S. Thomas i'w henwau gael eu cofnodi yn erbyn y penderfyniad i dderbyn y set uchod o gofnodion – Eitem Rhif 17 – Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Craffu Adfywio – 8 Medi 2020.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gymeradwyo'r cofnodion a'u cadarnhau fel cofnod gywir o drafodion. | |
| **No. 6** | **<u>CYFARFOD CYFFREDINOL Y CYNGOR</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 7** | **<u>PWYLLGOR CYNLLUNIO, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 8** | **<u>PWYLLGOR GWEITHREDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 9** | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 10** | **<u>CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR GWEITHREDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 11** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU TROSOLWG CORFFORAETHOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 12** | **<u>COFNODION PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 13** | **<u>COFNODION PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 14** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 15** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU TROSOLWG CORFFORAETHOL</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 16** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 17** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO</u>**<br><br>Cytunwyd. | |
| **No. 18** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO</u>**<br><br>Gofynnodd y Cynghorwyr J. C. Morgan, H. Trollope a S. Thomas am i'w henwau gael eu cofnodi yn erbyn y penderfyniad i dderbyn y set uchod o gofnodion.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gytuno'r cofnodion. | |
| **No. 19** | **<u>CWESTIYNAU AELODAU</u>**<br><br>Ni chafodd unrhyw gwestiynau eu cyflwyno gan Aelodau. | |
| **No. 20** | **<u>CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD</u>**<br><br>Ni chafodd unrhyw gwestiynau eu cyflwyno gan aelodau o'r cyhoedd. | |
| **No. 21** | **<u>ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLAETH TRYSORLYS 1</u>** | |

**EBRILL 2019 I 31 MAWRTH 2020**

Ystyriodd Aelodau adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Prif Swyddog Adnoddau yn fyr am yr adroddiad, sy'n rhoi cyfle i Aelodau adolygu'r gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gynhaliwyd yn ystod 2019/2020.

Cyfeiriwyd at Dabl 5.1.6 sy'n rhoi crynodeb o'r gweithgareddau a hysbyswyd Aelodau fod copi o'r adroddiad blynyddol llawn ar gael yn atodiad 1. Yn ystod 2019/2020 roedd yr awdurdod wedi cymryd £10m o ddyled gyhoeddus hirdymor gan awdurdodau cyhoeddus eraill ac er yr hinsawdd ariannol roedd yr awdurdod wedi perfformio'n dda yn nhermau ei fuddsoddiadau, gan weld adenillion o £61,000 gyda chyfradd log gyfartalog o 0.46%. Er fod hyn ychydig yn is na'r gyfradd meincnod o 0.54% mae'n adlewyrchu'r ffaith na fedrai'r Awdurdod fuddsoddi mewn gwrthbartïon oedd yn talu cyfraddau uwch oherwydd gostyngiadau graddiad credyd. Fodd bynnag roedd hyn yn cydymffurfio â pholisi osgoi risg yr Awdurdod lle mae sicrwydd y swm cyfalaf oedd y brif flaenoriaeth ar draul adenillion mwy cystadleuol.

Aeth y Prif Swyddog ymlaen drwy ddweud y talwyd cyfradd log gyfartalog o 1.09% ar fenthyciadau dros dro, o gymharu â meincnod o 1.00% gan ostwng cyn belled ag oedd yn bosibl y llog a delir gan yr Awdurdod. Roedd hyn er gwaethaf yr effaith (cynnydd) mewn cyfraddau marchnad yn dilyn y cynnydd 1.00% mewn cyfraddau PWLB ym mis Hydref 2019 ac roedd hynny wedi effeithio ar gyfraddau marchnad. Felly, gellid gweld hyn fel tystiolaeth o berfformiad da.

Cydymffurfiwyd yn ystod y flwyddyn â'r holl derfynau trysorlys a dangosyddion darbodus rheoli trysorlys a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol ac nid oedd unrhyw sefydliadau y buddsoddwyd ynddynt yn ystod y cyfnod wedi cael unrhyw anhawster wrth ad-dalu buddsoddiadau a llog yn llawn, felly nid oedd yr Awdurdod wedi bod yn agored i unrhyw golled ariannol fel canlyniad i'r hinsawdd economaidd anodd.

Daeth y Prif Swyddog i ben drwy ddweud fod Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol wedi ystyried yr adroddiad ar 11 Medi 2020 ac wedi cymeradwyo Opsiwn 1,

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef nodi'r gweithgaredd rheoli trysorlys a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 a derbyn y cofnod o berfformiad a chydymffurfiaeth a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20. | |
| **No. 22** | **<u>STRATEGAETH FASNACHOL</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Prif Swyddog Masnachol i gael ei ystyried.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Masnachol y Strategaeth Fasnachol ar gyfer 2020-2025 a gafodd ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Gweithredol ym mis Chwefror a mis Mawrth ond yn anffodus gohiriwyd ystyriaeth y Cyngor i'r strategaeth oherwydd effaith pandemig Covid-19.<br><br>Nodwyd fod llawer o'r bwriadau a'r uchelgeisiau o fewn y strategaeth wedi parhau'n ffocws wrth i'r Cyngor geisio dod yn sefydliad gyda naws mwy masnachol ac mae hyn yn cyd-fynd â'r uchelgais i fod yn 'Gyngor uchelgeisiol ac arloesol yn darparu gwasanaethau ansawdd uchel sydd o bwys i'n cymunedau'. Mae nifer o themâu beirniadol o fewn y ddogfen a rhoddir sylw iddynt ym mharagraff 2.2 yr adroddiad.<br><br>Yn ychwanegol mae nifer o strategaethau a rhaglenni cysylltiedig a fyddai'n cyfrannu at gyflenwi'r Strategaeth Fasnachol, gyda digwyddiadau Covid-19 wedi effeithio ar y cyfan ohonynt yn cynnwys:<br><br>- Strategaeth Cyfathrebu 2020 – 2025<br>- Rhaglen Ddigidol a Thrawsnewid Cwsmeriaid<br>- Y Strategaeth Gweithlu<br><br>Hysbyswyd aelodau fod pump uchelgais masnachol penodol a fanylir ym mharagraff 2.4 yr adroddiad. Byddai'r uchelgeisiau hynny yn cael eu trin drwy Fwrdd Strategol Comisiynu a Masnachol newydd sydd wrthi'n cael ei sefydlu. Byddai hyn yn disodli'r Bwrdd Caffael Strategol a byddai'r Cylch Caffael a Chomisiynu yn cael ei gryfhau i gefnogi'r Bwrdd newydd fyddai hefyd â rôl yn adolygu cyflenwi Cytundebau Lefel Gwasanaeth i ysgolion, monitro hyfywedd masnachol gwasanaethau a fasnachir ac wrth lywodraethu opsiynau buddsoddiad yn defnyddio fframwaith buddsoddi. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae gan bob un o'r pump uchelgais masnachol set o gamau gweithredu sy'n ffurfio rhaglen waith a gaiff ei chraffu dros y pum mlynedd nesaf. Felly gwnaed y diwygiad dilynol i baragraff 2.6 yr adroddiad sef y byddai adroddiadau ar gyflenwi'r rhaglen gwaith yn cael ei wneud yn chwarterol drwy'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol yn chwarterol (ac nid yn flynyddol fel yn yr adroddiad) a byddai'n cael ei ystyried yn flynyddol gan y Cyngor.<br><br>PENDERFYNWYD yn unol â hynny.<br><br>Daeth y Prif Swyddog Masnachol i ben drwy amlinellu'r opsiynau o fewn yr adroddiad.<br><br>Gofynnodd Arweinydd y Grŵp Llafur am i Aelodau gael rhestr lawn o'r ymgynghorwyr a gomisiynwyd dros y 2 flynedd ddiwethaf gyda'r gwariant cysylltiedig â phob comisiwn.<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH yn unfrydol, yn amodol i'r uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar y Strategaeth Fasnachol a'r rhaglen waith gysylltiedig. | |
| **No. 23** | **<u>STRATEGAETH CYFATHREBU CORFFORAETHOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Masnachol.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Masnachol i'r strategaeth gael ei hystyried gan y Pwyllgor Craffu a hefyd y Pwyllgor Gweithredol yn y gwanwyn ond y cafodd ei gohirio gan y Cyngor oherwydd pandemig Covid-19. Mae'r strategaeth yn cynnwys nifer o ddyheadau a gynyddwyd dros y 6 mis diwethaf. Cydnabuwyd pwysigrwydd a grym cyfryngau cymdeithasol ar amser mor anodd wrth fedru rhyddhau negeseuon allweddol yn gyflym i breswylwyr a medru ymateb i geisiadau am wybodaeth mewn cyfnod o argyfwng. Nodwyd fod cyfryngau digidol a chymdeithasol yn arfau grymus iawn ac yn rhoi proses gyfathrebu ddwy-ffordd ar gyfer y Cyngor a'i breswylwyr.<br><br>Prif amcan y strategaeth fel y'i manylir ym mharagraff 2.4 yr adroddiad yw darparu cyfathrebu dwy-ffordd rhagorol, arloesol ac effeithlon o ran cost, gan feithrin enw da cadarnhaol a chynyddu ymddiriedaeth a hyder bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau sy'n ateb anghenion preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr. | |

Cafodd llawer o’r wybodaeth a gasglwyd i roi cynnwys cyfathrebu o bresenoldeb rheolaidd mewn cyfarfodydd o Dîm Rheolaeth Cyfarwyddiaethau ac mae’r Tîm Cyfathrebu yn gweithio’n agos gyda phob cyfarwyddwr i ddynodi cysylltiad cynnar gyda gwasanaethau ar reoli ymgyrchoedd a chyfleoedd cyfathrebu.

Mae chwe uchelgais neu thema a fydd yn gyrru darpariaeth cyfathrebu dan arweiniad y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol a chânt eu hamlinellu ym mharagraff 2.6 yr adroddiad. Mae gan bob un o’r uchelgeisiau set o gamau gweithredu sy’n llunio rhaglen waith a fyddai’n cael ei chraffu dros y pum mlynedd nesaf. Gwnaed y cywiriad dilynol i baragraff 2.7 yr adroddiad sef y caiff adroddiadau ar gyflenwi’r rhaglen waith ei wneud yn chwarterol drwy’r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol (ac nid yn flynyddol fel sydd yn yr adroddiad) a byddid yn rhoi adroddiad i’r Cyngor yn flynyddol.

PENDERFYNWYD yn unol â hynny.

Daeth y Prif Swyddog Masnachol i ben drwy amlinellu’r opsiynau ar gyfer argymhellion a gynhwysir ym mharagraff 3 yr adroddiad.

***Defnydd Sianeli Cyfathrebu Digidol –*** mynegodd Aelod ei bryder fod enw da’r Cyngor o ran cyfathrebu gyda’r cyhoeddus wedi ‘yn y llaid’ ar hyn o bryd. Fel arfer mae’n rhaid i breswylwyr sy’n ceisio ffonio’r ganolfan gyswllt aros rhwng 45 munud ac awr ar gyfartaledd i gael ateb ac nid yw’r ‘ap’ hunanwasanaeth yn gweithio’n effeithlon bob amser.

***Cefnogaeth i Aelodau Etholedig a Staff –*** canmolodd Arweinydd y Grŵp Llafur y strategaeth a dywedodd iddo weld gwelliant mewn cyfathrebu yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae’r cynllun fel y’i amlinellir ym mharagraff 2.5 hefyd yn anelu i gefnogi Aelodau a staff ond nododd fod cyfrifoldeb ar Aelodau, yn arbennig Aelodau arweiniol, i siarad lan dros y Cyngor. Soniodd am sgwrs a gafwyd gyda gohebydd o BBC Radio Wales yn gofyn iddo roi sylwadau ar y bwriad am gyfyngiadau lleol a dywedodd y gohebydd wrtho nad oedd Aelodau arweiniol wedi bod yn barod i gymryd rhan. Dywedodd nad oedd hyn yn ddigon da yn ystod y cyfnod anodd yma – roedd dyletswydd ar Aelodau’r Cyngor a’r arweinyddiaeth yn neilltuol i gyfathrebu.

***Gwaith Papur yr Agenda –*** nododd Aelod arall ei bryder nad oedd wedi gweld yr adroddiadau sy’n cael eu trafod yn y cyfarfod hwn a dywedodd ei bod yn hanfodol fod Aelodau yn cael yr

| | | |
|---|---|---|
| | wybodaeth hon gan fod y Cyngor yn gweithio o bell ar hyn o bryd. Dywedodd fod y ddarpariaeth TGCh yn annigonol ac annibynadwy. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Aelodau wedi cael mynediad i'r wybodaeth wythnos cyn y cynhaliwyd y cyfarfod.<br><br>***Cyfathrebu* –** dechreuodd Aelod drwy ddweud ei bod yn ymwybodol fod hwn yn gyfnod anodd iawn a bod gwasanaethau dan lawer o bwysau ond dywedodd os oes problemau difrifol o fewn wardiau a'r Fwrdeistref Sirol, yna y dylai Aelodau gael eu diweddaru a chael yr wybodaeth ar unwaith – rhoddodd Aelod enghraifft pan oedd ysgol leol wedi ei chau yn ei ward a bod preswylwyr wedi codi nifer fawr o bryderon gyda hi. Roedd digwyddiad arall yn gysylltiedig â neges Cyfathrebu Corfforaethol a gyhoeddwyd cyn i rieni gael gwybodaeth am y sefyllfa gan bennaeth yr ysgol.<br><br>Aeth yr Aelod ymlaen i ddweud fod Aelodau yn cael eu hethol i weithio ar ran y cyhoedd ac felly y dylent gael eu diweddaru a chael gwybodaeth lawn am unrhyw beth oedd yn digwydd yn arbennig yn eu wardiau unigol a'r fwrdeistref. Gallai aelodau wedyn gyfleu'r wybodaeth hon i rieni pryderus a fyddai wedyn yn atal llif o alwadau i'r Cyngor. Daeth yr Aelod i ben drwy ddweud ei bod wedi hysbysu swyddogion am y pryderon am gyfathrebu ysgolion ac mae'n disgwyl ymateb.<br><br>Tanlinellodd Aelod arall bwysigrwydd fod hysbysiadau cyfreithiol yn cael eu cyfathrebu i'r cyhoedd e.e. ceisiadau cynllunio gan fod mwy a mwy o bobl yn symud i'r rhyngrwyd i gael mynediad i'r math yma o wybodaeth. Dywedodd hefyd y dylai'r wefan gynnwys straeon newydd a'i bod yn bwysig fod y wefan ar gael nid yn unig o gyfrifiaduron desg a dyfeisiau symudol ond ei bod yn gweithio mewn cysylltiad â'r 'ap' cyfredol fel y medrir cyflenwi newyddion i breswylwyr yn y fformat yma.<br><br>***Ymateb Arweinydd y Cyngor* –** Roedd Arweinydd y Cyngor yn cytuno gyda sylwadau Arweinydd y Grŵp Llafur a dywedodd os gwneir ceisiadau i Aelodau wneud datganiadau i'r wasg yna y dylent wneud hynny. Yng nghyswllt cyfweliad BBC Radio Wales, cadarnhaodd mai dim ond un cais a gafodd gan y Tîm Cyfathrebu i roi sylwadau yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd gyda thri Arweinydd arall yn ymwneud â sefyllfa cyfnod clo a Gweinidogion Llywodraeth Cymru ond yn anffodus roedd wedi cymryd rhan mewn cyfarfod pellach yn syth wedyn a roedd yn rhaid gwneud ymateb erbyn amser penodol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Yng nghyswllt y sylwadau am gyfathrebu, dywedodd er ei fod yn cytuno i ryw raddau, ni fedrai gytuno fod cyfathrebu cyfan 'yn y llaid' – roedd hyn yn ymadrodd cryf ac er bod angen gwella rhai agweddau, roedd yn hollol anghywir dweud fod cyfathrebu i gyd 'yn y llaid'. Er ei fod yn rhannu pryderon tebyg yng nghyswllt y maes y cyfeiriwyd ato, byddai hyn yn ffurfio rhan o'r adolygiad y byddai'r Prif Swyddog Masnachol yn ei gynnal i wella rhai meysydd. Rhoddwyd llawer iawn o bwyslais a ffocws ar gyfathrebu ac ymgysylltu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf a bu'n neilltuol o dda mewn rhai meysydd – byddai'r strategaeth yn mynd i'r afael â'r meysydd hynny sydd fwyaf o angen eu gwella a gobeithir y bydd Aelodau a phreswylwyr yn gweld y gwelliannau angenrheidiol yn y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod at ei sylwadau blaenorol a dywedodd ei fod yn cyfleu pryderon preswylwyr ac er eglurdeb roedd wedi dweud fod meysydd 'neilltuol' o gyfathrebu 'yn y llaid' ac nid cyfathrebu i gyd. Nid oedd preswylwyr yn cysylltu â'r Cyngor dros y ffôn oherwydd eu bod yn gorfod aros yn hir. Daeth i ben drwy ddweud ei fod yn credu, yn llygaid y cyhoedd, fod enw da cyfathrebu wedi gostwng.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg (Interim) fod y Cyngor yn amlwg mewn sefyllfa o ymateb i argyfwng a bod y Timau Addysg a Chyfathrebu yn gwneud eu gorau glas i gyfathrebu yn yr hyn oedd yn sefyllfa gyfnewidiol iawn i randdeiliaid allweddol am sefyllfa cau ysgolion. Dywedodd hefyd fod ysgolion yn bartneriaid allweddol wrth ddosbarthu negeseuon i rieni ac mae yn eu dwylo hwy i ryddhau'r wybodaeth honno.<br><br>Yng nghyswllt yr ysgol y cyfeirid ati, hysbysodd Aelodau pam y bu oedi bach o rhwng 10-15 munud cyn y gwnaeth y Pennaeth ryddhau'r wybodaeth i rieni. Yng nghyswllt y cais gwreiddiol a gafwyd yng nghyswllt dull y Cyngor o ymateb i Aelodau am gau ysgolion, bydd hyn yn cael ei drafod yn y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol sydd eisiau gweithredu mewn modd cyson mewn amgylchiadau a all godi yn y dyfodol a byddai'n ymateb i'r Aelod yn unol â hynny.<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH, yn amodol â'r uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar y Strategaeth Cyfathrebu a'r rhaglen waith gysylltiedig. | |
| **No. 24** | **<u>CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020 I 2024</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau i gael ei ystyried.<br><br>Dechreuodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau drwy ddweud fod gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Yn ogystal â'r dyletswyddau penodol a gafodd ei nodi yn y Ddeddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) (Rheoliadau), mae Llywodraeth Cymru yn dymuno dechrau Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus newydd dan deitl 'dyletswydd cymdeithasol-economaidd' o fis Medi 2020 sydd angen ei gynnwys yn y Cynllun a'i fonitro yn y dyfodol.<br><br>Rhoddir manylion yr Amcanion Cydraddoldeb ym mharagraff 2.7 yr adroddiad a chynhwysir y cynllun a'r dogfennau cefnogi o fewn Atodiad 1.<br><br>Defnyddiwyd nifer o ddulliau ymgysylltu i gael sylwadau ar y drafft gynllun a derbyniwyd 98 ymateb fel rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol a gynhaliwyd rhwng Rhagfyr 2019 a Ionawr 20920. Yn ystod y ddau gyfnod ymgysylltu, cymerwyd rhan gan yr Uwch Bwyllgor Plant, y Fforwm Ieuenctid, Fforwm 50+ a Grŵp Pobl yn Gyntaf Blaenau Gwent ac arolygwyd siopwyr yng nghanol pob tref. Cysylltwyd yn effeithlon gydag Aelodau etholedig drwy Weithgor Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a gyfarfu ym mis Medi a mis Tachwedd 2019 fel rhan o gynllun y prosiect.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, yn unol â disgwyliadau dyletswyddau penodol Deddf Cydraddoldeb 2010. | |
| **No. 25** | **<u>CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD – CYTUNDEB CYFLENWI DIWYGIEDIG</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Rheolwr Tîm – Rheoli Adeiladu a Chynlluniau Datblygu yn fanwl am yr adroddiad, oedd â'r diben o geisio cymeradwyaeth am Gytundeb Cyflenwi Diwygiedig ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ynghyd ag Asesiad Covid-19. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae Adran 2 yr adroddiad yn nodi'r rheswm pam y bu angen diwygio'r Cytundeb Cyflenwi a chynnal Asesiad Covid-19. Nodwyd, er fod y gwaith o baratoi'r Cynllun hwn 3 mis ar ôl yr amserlen (roedd hyn o fewn y llithriad 3-mis y caniateir amdano gan y Cytundeb Cyflenwi), mae cynnydd da yn cael ei wneud. Mae'r Tîm Cynlluniau Datblygu yn paratoi i fynd allan ar gyfer ymgynghoriad ar yr 2il Alwad am Safleoedd Ymgeisiol a gwybodaeth bellach ar safleoedd presennol, pan darodd pandemig Covid-19.<br><br>Yn gynnar ym mis Mawrth, cafodd y Cyngor ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru yn cynghori rhag symud ymlaen gyda'r cynllun gan fod hyn yn debygol o fod yn groes i'r gofynion cyfreithiol a nodir yng Nghytundeb Cyflenwi Cynllun Ymgyfraniad Cymunedau ac felly ni aeth yr 2il Alwad am Safleoedd Ymgeisiol ymlaen a chafodd y cynllun ei oedi. Derbyniwyd llythyr pellach gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ym mis Gorffennaf yn cynghori symud ymlaen ond i wneud hynny roedd angen i'r Cyngor gyflwyno Cytundeb Cyflenwi diwygiedig i drin Covid-19, ymbellhau cymdeithasol a'r oedi ynghyd ag asesiad Covid-19.<br><br>Cafodd cwmpas yr adroddiad ei amlinellu ym mharagraff 2.12 a nodwyd y byddai angen hefyd cyflwyno'r ddwy ddogfen sydd angen cymeradwyaeth y Cyngor i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo cyn i'r gwaith ar y cynllun symud ymlaen.<br><br>Nodwyd y byddai'r amserlen Cytundeb Cyflenwi fel canlyniad i'r cyfnod clo yn cael ei ohirio gan 7 mis gyda 2 wythnos arall wedi eu hychwanegu ar gyfer y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynllun adnau a fyddai'n golygu'r cynllun yn awr yn cael ei fabwysiadu yn hydref 2022 yn hytrach nag ym mis Mawrth 2022 – y dyddiad diweddaraf oll ar gyfer y cynllun presennol byddai diwedd 2021, felly byddai'r Cyngor heb Gynllun Datblygu Lleol am gyfnod o 10 mis.<br><br>Rhoddir manylion dulliau i oresgyn problemau pellter cymdeithasol ym mharagraff 2.15 yr adroddiad ac mae mesurau o'r fath yn cynnwys cyfnodau ymgynghori hirach ac apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw.<br><br>Cafodd manylion dogfen asesiad Covid-19 eu hamlygu o fewn paragraffau 2.16-2.20 ac mae'r ddogfen yn rhoi trosolwg o asesiad y sylfaen tystiolaeth a daeth i'r casgliad fod y sylfaen tystiolaeth yn gyffredinol naill ai mor dda ag y gallai fod oherwydd diffyg data | |

| | | |
|---|---|---|
| | tueddiadau newydd neu gallai gael ei ddiweddaru a byddai'n cael ei ddefnyddio i lywio'r Cynllun Adnau. Mae strategaeth ac amcan y cynllun yn gydnaws gyda nodau Llywodraeth Cymru a amlinellir o fewn dogfen Adeiladu Lleoedd Gwell.<br><br>Nodwyd fod y polisïau strategol yn ddigon hyblyg i ddelio gyda'r hyn oedd yn gyfnod anhysbys a rhoi fframwaith monitro yn eu lle i adlewyrchu ansicrwydd cysylltiedig, byddai'r Cynllun yn ddigon cadarn tra'n gosod gweledigaeth glir a neilltuol o'r hyn roedd ei angen o fewn Blaenau Gwent. Daeth y Rheolwr Tîm i ben drwy gadarnhau fod y Pwyllgor Craffu Adfywio wedi cefnogi Opsiwn 1.<br><br>Wedyn cafodd aelodau gyfle i godi cwestiynau/sylwadau yng nghyswllt y Cytundeb Cyflenwi Lleol diwygiedig.<br><br>Gofynnodd Aelod am gofnodi ei werthfawrogiad i'r Rheolwr Tîm a'i thîm ar gyfer y gwaith rhagorol a wnaed ar y Cynllun Datblygu Lleol dros y flwyddyn ddiwethaf a hyd yma. Cymeradwyodd Arweinydd y Cyngor y sylwadau a wnaed.<br><br>Dywedodd Aelododd Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd y cafodd llawer iawn o waith ei wneud cyn a thrwy gydol pandemig Covid-19 ac mae'r tîm wedi gwneud gwaith gwych. Mae'r sefyllfa'n newid bob dydd ac mae'n rhaid i'r cynllun fod yn hyblyg ar gyfer y misoedd i ddod ac maent yn cynnwys newidiadau tebyg i'r effaith ar yr economi a newidiadau mewn trafnidiaeth – nodwyd fod llawer o elfennau a fedrai effeithio ar y cynllun.<br><br>Fodd bynnag, roedd dau brif faes o bwysigrwydd h.y. o bosibl y 10 mis y gallai'r Cyngor fod heb Gynllun Datblygu Gwaith a byddid yn cynnal gwaith gyda swyddogion a chynghorau eraill i liniaru hyn mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru. Yn ychwanegol, yng nghyswllt y costau uwch oherwydd Covid-19, gall fod gyfle am ad-daliad. Daeth yr Aelod Gweithredol i ben drwy ddweud y byddai Aelodau'n cael eu diweddaru ac yn derbyn hysbysiadau cynnydd yn rheolaidd.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo'r Cynllun Cyflenwi Diwygiedig ac Adroddiad Asesu Covid-19. | |
| **No. 26** | **<u>CYNLLUN DATGARBONEIDDIO 2020 – 2030</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ystyriodd Aelodau adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gyfarwyddwr yn fanwl am yr adroddiad a thynnu sylw at y pwyntiau perthnasol ynddo. Esboniodd fod adran gyntaf yr adroddiad yn cydnabod fod newid hinsawdd yn fater byd-eang o bwysigrwydd sylweddol a bod y cynllun yn gosod uchelgais a chyfeiriad clir i Flaenau Gwent ar sut y gallai ostwng newid hinsawdd a dod yn Gyngor carbon niwtral erbyn 2030. Mae'r cynllun hefyd yn bwriadu cefnogi cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru o Gymru garbon isel a galwodd am arweinyddiaeth sector cyhoeddus ac i'r holl sector cyhoeddus yng Nghymru ddod yn garbon niwtral erbyn 2030.<br><br>Hysbyswyd Aelodau fod y Cyngor eisoes yn gweithio ar gynlluniau ac yn gwneud buddsoddiadau i helpu gostwng ei ôl-troed carbon a rhoddir manylion hyn ym mharagraff 2.4 yr adroddiad. Felly, nid yw'r Cyngor yn cychwyn o safbwynt o 'ddim gweithgaredd' ac er y gwnaed gwaith da, mae cryn dipyn o waith i'w wneud yn y dyfodol. Mae enghreifftiau da o'r hyn a gyflawnwyd hyd yma yn cynnwys buddsoddi mewn Ysgolion 21ain Ganrif, gan ddarparu seilwaith/adeiladau ysgol mwy modern ac effeithiol; symud tuag at stad oleuadau stryd ynni o ran isel; rheoli gwastraff – gostwng swm y gwastraff a aeth i domen lanw a'r rhaglen Refit – gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn ailosod adeiladau i'w gwneud yn fwy effeithiol o ran ynni. Rhoddir manylion y lefelau presennol o allyriadau carbon yn yr adroddiad i'r adroddiad.<br><br>Aeth y Rheolwr Gyfarwyddwr ymlaen drwy ddweud fod paragraff 2.7 yn nodi nifer o weithrediadau'r Cyngor lle gallai gweithredu wneud cyfraniad sylweddol tuag at yr uchelgais o fod yn garbon niwtral a phontio i gyflawni Cyngor mwy effeithol a charbon niwtral. Byddai angen gwneud gwaith pellach a chynnwys meysydd fel trafnidiaeth a theithio (yn cynnwys teithio i'r gwaith), caffael nwyddau a gwasanaethu, prynu a defnyddio ynni a gwresogi adeiladau a gwaith pellach am wastraff a chyfraddau ailgylchu cynyddol. Yn ychwanegol, mae gwaith pwysig a gweithgaredd mapio'n cael ei wneud ar hyn o bryd fyddai'n edrych sut y gellid defnyddio asedau/daliadau tir i wrthbwyso unrhyw allyriadau carbon – gelwir hyn yn 'secwestriad'.<br><br>Pwysleisiodd y Rheolwr Gyfarwyddwr na ddylid gweld y Cynllun Datgarboneiddio fel menter neu gynllun newydd arall, roedd yn uchelgais am sut mae'r Cyngor yn dymuno gweithredu a byddai'n sylfaen i bob darpariaeth gwasanaeth a sut y caiff gwasanaethau | |

eu cynllunio, eu datblygu a'u gwella yn y dyfodol. Byddai'n rhaid i aelodau a swyddogion fod yn ymwybodol o effaith gwneud penderfyniadau yn y dyfodol a'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar yr awdurdod yn dod yn garbon niwtral.

Mae adran 6 yr adroddiad yn rhoi sylw i'r gwaith a'r dystiolaeth data sy'n cefnogi'r cynllun, yn cynnwys elfennau ôl-troed carbon. Amcangyfrifwyd, bod y Cyngor ar hyn o bryd yn cynhyrchu 71,330 tunnell fetrig o CO2 fel sefydliad yn darparu ei weithrediadau a gweithgareddau dydd i ddydd.

Mae'r adroddiad yn rhoi enghreifftiau o'r gweithgaredd hwn, gyda rhan fawr o'r allyriadau carbon yn ganlyniad teithio i'r gwaith a swyddogion yn gyrru o amgylch i gyflawni eu gweithgareddau dyddiol. Mae gwaith diweddar wedi gweld effaith sylweddol dros y 6 mis diwethaf, oherwydd newid mewn trefniadau gwaith lle nad yw swyddogion yn teithio i'r gwaith a heb fod yn teithio yn ystod eu dyletswyddau. Cyn y cyfnod clo dim ond 11% o deithiau posibl i'r gwaith oedd yn cael eu hosgoi oherwydd gweithio gartref ond mae hyn wedi cynyddu i 80% ers y cyfnod clo gan y galluogwyd staff i weithio gartref. Yn seiliedig ar amcangyfrif dangosol, mae hyn yn arbediad o 1,5000 tunnell o allyriadau carbon mewn blwyddyn gyfan.

Mae hyn yn dangos fod ffactor bwysig mewn dod yn awdurdod carbon niwtral yn ymwneud â newid ymddygiad a sut y cynhelir y busnes a sut y darperir gwasanaethau. Byddai ymwreiddio ac adeiladu ar yr ymddygiad cadarnhaol hwn yn y dyfodol yn gam sylweddol wrth gyflawni uchelgais y Cyngor i ddod yn awdurdod carbon niwtral.

Daeth y Rheolwr Gyfarwyddwr i ben drwy ddweud fod y Pwyllgor Craffu Adfywio wedi trafod y cynllun ac wedi cymeradwyo Opsiwn 1.

Wedyn cafodd aelodau gyfle i godi cwestiynau/rhoi sylwadau ar yr adroddiad.

Dywedodd Arweinydd y Grŵp Llafur fod hwn yn gynllun rhagorol ond rhybuddiodd, er fod gweithio gartref yn awr yn hanfodol, y byddai angen i amodau fod yn wahanol yn y dyfodol oherwydd rhaid sylweddoli fod gweithio gartref yn dod â'i broblemau ei hun, er enghraifft llesiant a hefyd yn cael sgil-effeithiau economaidd ar ganol trefi.

Roedd Aelod yn rhannu pryder tebyg am weithio gartref a'r anawsterau a gafodd y cyhoedd wrth gysylltu gyda'r Cyngor. Roedd hefyd effaith sylweddol ar ganol trefi gyda pherchnogion busnes yn colli busnes, yn arbennig gyda'r Ganolfan Ddinesig ar gau ar hyn o bryd. Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at bosibilrwydd lleoli cyfleuster arall yng Nghwm Tawel a allai o bosibl gynyddu nifer y cerbydau yn ymweld â'r safle o'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol a gofynnodd pa effaith a goblygiadau a fyddai hyn ar gyfer i Flaenau Gwent ddod yn awdurdod carbon niwtral yn y dyfodol.

Dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod y Cyngor yn gweithredu mewn cyfnod rhyfedd a bod y Ganolfan Ddinesig ar gau a swyddogion yn gweithio gartref oherwydd ei bod yn amlwg mai hyn oedd cyngor Llywodraeth Cymru. Cydnabu fod trefniadau gwaith wedi mynd o un eithaf i'r llall h.y. o sefyllfa o staff yn bennaf yn seiliedig yn y swyddfa gyda gweithio gartref achlysurol i bawb yn gweithio gartref gyda defnydd swyddfa achlysurol. Fodd bynnag, fel rhan o'r uchelgais yma, ni fedrai'r Cyngor ddychwelyd i'r dull gweithredu blaenorol yn y dyfodol – byddai'n ddull gweithredu cytbwys rhwng swyddfa a gweithio gartref a allai atal rhai o anfanteision gweithio gartref unwaith fod y pandemig wedi llacio'n ddigonol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ganfod sut y gellid hwyluso hyn ond cafodd hyn ei ohirio ychydig oherwydd cyhoeddiadau diweddar Llywodraeth Cymru.

Yn nhermau uchelgais y Cyngor i ddod yn garbon niwtral, i gyflawni hyn byddai angen i bob prosiect a ddatblygir neu unrhyw welliannau neu newidiadau a wnaed i ddarpariaeth gwasanaeth roi ystyriaeth i effaith allyriadau carbon yn y dyfodol h.y. roedd angen i hyn gael ei ystyried fel rhan o bopeth a wnaiff y Cyngor.

Cyfeiriodd Aelod arall at y seilwaith o fewn Siambr y Cyngor a dywedodd iddi gael sicrwydd gan yr Arweinydd cyn Covid-19 y byddid yn gwella'r seilwaith yn y Siambr i alluogi Aelodau i fedru defnyddio eu gliniaduron yn y safle ond ni wnaethpwyd hyn hyd yma. Mae'r safle yn dal i fod heb socedau trydanol ac mae problemau gyda chael mynediad i Wi-Fi. Hefyd, fel rhan o unrhyw drefniadau yn y dyfodol, mae angen darpariaeth i Aelodau fedru mynychu cyfarfod o bell, os oes angen hynny. Mynegodd ei phryder y gwariwyd swm sylweddol arian ar foderneiddio swyddfeydd ond cafodd y Siambr ei gadael ar ôl ac roedd yn dal i fod yn y un cyflwr â phan adeiladwyd y Ganolfan Ddinesig gyntaf.

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd Aelod y byddai'r cynllun hirdymor hwn ynghyd â'r Cynllun Datblygu Lleol yn un o'r conglfeini yr adeiledir y Fwrdeistref Sirol arno yn y dyfodol. Mynegodd ei ddiolch i'r Rheolwr Gyfarwyddwr am y gwaith a wnaed hyd yma a chanmolodd y cynnydd a wnaed.<br><br>Cytunodd Aelod arall gyda'r pwyntiau a wnaed am weithio gartref fod angen dull cyfunol o weithio gartref a swyddfa (tebyg i'r ffordd mae addysg yn gweithredu ar hyn o bryd) oherwydd ei fod yn bryderus fod gan weithio gartref sgil-effeithiau posibl ac yn tarfu ar yr aelwyd gyfan. Dywedodd fod staff y dywedwyd iddynt weithio gartref hawl i lwfans o £6 yr wythnos i dalu am dreuliau cyffredinol megis biliau cyfleustod.<br><br>Adleisiodd yr Aelod Gweithredol – Adfywio a Datblygu Economaidd y sylwadau wnaed y gwnaed llawer iawn o waith eisoes ond mae'n gynllun sy'n datblygu a byddai'n newid dros gyfnod. Cytunodd gyda'r dull cyfunol y cyfeiriwyd ato a bod trafodaethau eisoes yn digwydd gyda'r undebau llafur ar hyn a byddai gwaith hefyd yn cael ei wneud gyda phartneriaid i sicrhau fod y dull gweithredu yn gywir ar gyfer y dyfodol. Roedd hyn yn darged heriol iawn ond medrid gwireddu hyn dros gyfnod gyda chymeradwyo'r cynllun.<br><br>Felly cynigiodd i gymeradwyo Opsiwn 1 gydag adendwm fod y Cyngor yn datgan argyfwng hinsawdd. Nodwyd fod Llywodraeth Cymru yn arwain ar y cynllun hwn ac roedd wedi gofyn i awdurdodau lleol ystyried hynny.<br><br>PENDERFYNWYD, yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cymeradwyo Cynllun Datgarboneiddio 2020-2030.<br><br>PENDERFYNWYD YMHELLACH bod y Cyngor yn datgan argyfwng hinsawdd. | |
| **No. 27** | **<u>PWYLLGOR SAFONAU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2020.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 28** | **ADRODDIAD AELODAETH**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i:<br><br>**Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan**<br>- penodi cynrychiolydd newydd.<br><br>Gofynnodd yr Arweinydd am gyflwyno datganiadau diddordeb os oes gan unrhyw Aelod ddiddordeb mewn llenwi'r swydd wag.<br><br>**Panel Ymgynghori Llywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol**<br><br>Gwnaed yr argymhellion dilynol i'r Panel ar 3 Awst 2020 i benodi:<br><br>***Ysgol Gynradd Sofrydd*** – Sian Barrett<br>***Ysgol Gynradd Pen-y-Cwm*** – Hannah Williams<br>***Ysgol Gynradd Leighton*** – Jaqueline Thomas<br>***Ysgol Gynradd Glyncoed*** – Cynghorydd Clive Meredith<br><br>Nodwyd ymhellach fod y Panel hefyd wedi argymell y penodiadau dilynol yn y cyfarfod na chafodd eu cynnwys o fewn yr Adroddiad Aelodaeth:<br><br>***Ysgol Gynradd Ystruth –*** Cynghorwyr G. Collier a L. Winnett<br><br>Gwnaeth y Panel yr argymhellion dilynol ar 14 Medi 2020 i benodi:<br><br>***Ysgol Gynradd Brynbach*** – Gemma Badham<br>***Ysgol Gynradd Illtud Sant*** – Lucy Allsopp<br><br>Mewn pleidlais unfrydol,<br><br>PENDERFYNWYD cymeradwyo'r apwyntiadau uchod.<br><br>**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**<br><br>PENDERFYNWYD nodi:<br><br>Penodiad y Cynghorydd J. C. Morgan fel Cadeirydd y Pwyllgor uchod.<br><br>Byddai'r Cynghorydd M. Cross yn parhau'n Aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mewn ateb i gwestiwn, dywedodd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau y byddai'n cwrdd gyda'r Cadeirydd newydd yn y dyfodol agos a rhagwelai y byddai cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei gynnull maes o law.<br><br>Amlinellodd y Cynghorydd Cross ei resymau am sefyll i lawr fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a mynegodd ei ddiolch i'r ddau gyn Is-gadeirydd, y Cynghorwyr Julie Holt a Jonathan Millard am eu cefnogaeth iddo yn y gorffennol. Dywedodd ei fod yn sicr y byddai'r Cynghorydd Morgan yn gadeirydd llwyddiannus.<br><br>Mynegodd y Cynghorydd Morgan ei werthfawrogiad i'r Cynghorydd Cross am ei holl waith yn ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor a dywedodd y byddai'n anodd llenwi ei esgidiau. | |
| **No. 29** | **<u>EITEM(AU) EITHRIEDIG</u>**<br><br>Derbyn ac ystyried yr adroddiad dilynol sydd ym marn y swyddog priodol yn eitem eithriedig gan roi ystyriaeth i'r prawf budd cyhoeddus ac y dylid eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod (mae'r rheswm am y penderfyniad i eithrio ar gael mewn rhestr a gedwir gan y swyddog priodol). | |
| **No. 30** | **<u>DIWEDDARIAD PARC YR ŴYL</u>**<br><br>Gan ystyried yr farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus sef o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes ei chynnal gan ei bod yn debyg y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol i gael ei ystyried. Nodwyd fod yr eitem hon ar gyfer dibenion gwybodaeth yn unig.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol am yr adroddiad, oedd â'r diben o ddiweddaru Aelodau gyda'r cynnydd a wnaed hyd yma yng nghyswllt cynnig Parc yr Ŵyl. | |

Nodwyd y sefydlwyd Gweithgor Parc yr Ŵyl a chynhaliwyd nifer o gyfarfodydd i ystyried elfennau rhyng-gysylltiedig y prosiect cymhleth hwn. Mae'r gweithgor hefyd wedi cysylltu gyda rhanddeiliaid perthnasol fel rhan o'r proseict.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y rhan fwyaf o'r gwaith a amlinellwyd ym mharagraff 2.5 yr adroddiad wedi ei gwblhau erbyn hyn a daeth i ben drwy amlinellu y tri opsiwn a gaiff eu manylu o fewn y cynllun busnes terfynol. Byddai'r cynllun hwn hefyd yn rhoi manylion manteision ac anfanteision pob opsiwn.

Gofynnwyd am farn Aelodau a rhoddir crynodeb ohonynt islaw ynghyd â'r atebion a gafwyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol:

- Mynegwyd pryder y dylai'r trafodaethau fod wedi eu cynnal yn y Cyngor cyn gwneud cynnig i'r asiant. Yn ychwanegol, gofynnodd Aelodau am eglurdeb am werth y cynnig a wnaed a gofynnodd sut oedd y Cyngor yn bwriadu cyllido'r cynnig os caiff ei dderbyn.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei fod wedi bod yn gweithredu dan bwerau dirprwy a awdurdodwyd i ddatblygu'r trafodaethau ond gwyddai'r asiant yn iawn y byddai unrhyw gynigion a wneir yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Soniodd am werth y cynnig ac ychwanegodd fod trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru yng nghyswllt y dulliau cyllido ar hyn o bryd.

  Gofynnodd y Grŵp Llafur fod y gost ynghyd â'r effaith ar flaenoriaethau ehangach yn y Gyfarwyddiaeth Adfywio yn cael ei gynnwys yn yr achos busnes. Gofynnod am sicrwydd, pe derbynnir yr achos busnes, na fyddai hyn yn cael ei gyllido o gyllideb yr adran ac na fyddai gweithgareddau eraill yn dioddef fel canlyniad.

  Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'r achos busnes yn canolbwyntio ar y tri opsiwn y cyfeiriwyd atynt yn gynharach ac na fyddent yn cyfeirio at unrhyw wasanaethau a gweithgareddau eraill y Cyngor. Dywedodd y gall yr achos busnes ddangos buddion ariannol hirdymor ond na fedrai roi mwy o sylwadau nes derbynnir yr achos busnes terfynol.

  Dywedodd Aelod arall ei fod yn bryderus nad yw'r Cyngor

mewn sefyllfa i symud ymlaen oherwydd y byddai'r Cyngor yn dibynnu ar fenthyciadau i'w gyllido pe derbynnid y cynnig. Dywedodd y dylai'r cynllun busnes fod wedi ei gymeradwyo cyn y gwnaed cynnig ffurfiol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y bu'r Cyngor yn agored a thryloyw yn ei drafodaethau gyda'r asiant a oedd yn llwyr ymwybodol o sefyllfa'r Cyngor h.y. y byddai'n rhaid i'r penderfyniad gael ei wneud gan y Cyngor llawn ac yn ychwanegol y byddai'n rhaid iddo gael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru.

- Mynegwyd pryder na roddwyd manylion yn yr adroddiad am y risgiau a ddynodwyd fel rhan o weithredu'r cynllun.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'r risgiau'n cael eu cynnwys fel rhan o'r achos busnes yn y dyfodol. Ychwanegodd i'r asiant hefyd gael gwybodaeth lawn am y risgiau cysylltiedig.

- Dywedodd Aelod arall ei fod yn tybio bod y cyfanswm costau cyfredol ar gyfer yr ymgynghorwyr a'r arolwg adeiladu hyd yma yn ychwanegol at yr amcangyfrif gwreiddiol a amlinellwyd yn yr adroddiad i gyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf.

  Soniodd Cyfarwyddwr Corfforaethol am gost yr ymgynghorwyr a'r arolygon adeiladu y bu'n rhaid eu cynnal fel rhan o'r broses diwydrwydd dyladwy. Byddid yn rhoi costau manwl fel rhan o'r achos busnes.

  Mynegodd yr Aelod ei phryder fod y swm y cyfeirir ato yn ychwanegol at y swm a gytunwyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf a gofynnodd pwy oedd wedi awdurdodi'r gwariant ychwanegol gan y teimlai nad oedd hyn yn dderbyniol.

  Dywedodd y Cyfawryddwr Corfforaethol ei fod wedi defnyddio pwerau a ddirprwywyd iddo i awdurdodi'r gwariant fel rhan o'r broses diwydrwydd dyladwy.

- Mewn ymateb i bryder a godwyd am ddatganiadau eraill o ddiddordeb a gwrthdaro buddiannau posibl, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol na chafodd unrhyw gynigion eraill

credadwy eu gwneud i'r cwmni ac felly bod y Cyngor wedi gwneud y penderfyniad i ymchwilio'r cyfle.

- Er eglurhad, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cafodd yr asiant ei hysbysu na fyddai'r Cyngor yn bwriadu rhoi iawndal am y lesau sydd ar ôl ar y safle – caiff y safle ei brynu gyda meddiant gwag.

  Dywedodd Aelod y dylai'r wybodaeth hon fod wedi ei chynnwys yn y cynllun busnes.

- Dywedodd Aelod fod nifer o breswylwyr pryderus wedi cysylltu ag ef parthed y cynigion ar gyfer y safle a gofynnodd os y cynhelir ymgynghoriad gyda phreswylwyr safle Parc yr Ŵyl. Dywedodd hefyd fod y Clwb Pysgota ar hyn o bryd yn gwagu'r biniau sbwriel sydd ar safle'r parc.

  Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'r trefniadau rheoli a chynnal a chadw yn un o'r meysydd a fyddai'n ffurfio rhan o'r gwaith manwl a gynhelir fel rhan o ddiwydrwydd dyladwy caffael y safle. Byddai mabwysiadu priffyrdd hefyd yn ffurfio rhan o'r ystyriaeth yma.

  Yng nghyswllt ymgynghori ac ymgysylltu, ni chaiff hyn ei wneud ar y pwynt hwn nes y gwneir penderfyniad yng nghyswllt yr achos busnes terfynol.

- Dywedodd Aelod arall fod amser yn ystyriaeth sylweddol a bod angen mynd â'r prosiect ymlaen a datrys y cymhlethdodau. Daeth i ben drwy gyfeirio at fuddion economaidd dod â'r safle yn ôl i berchnogaeth gyhoeddus.

Dywedodd yr Aelod Gweithredol Adfywio a Datblygu Economaidd y gwnaed llawer iawn o waith mewn cyfnod byr ac y byddai'r achos busnes terfynol yn cael ei ystyried mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar 22 Hydref.

Mewn ymateb i bwynt a godwyd, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y pwnc a drafodir yn cynnwys gwybodaeth fasnachol gyfrinachol a barnwyd ei bod yn eitem eithriedig ac os caiff ei rhannu gallai niweidio perthynas y Cyngor gyda phartïon allanol. Anogodd Aelodau i beidio datgelu na rhannu dim o'r wybodaeth hon gyda phartïon tu allan i'r cyfarfod hwn.

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD yn unfrydol, yn amodol ar yr uchod, bod yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion ariannol neu fusnes unrhyw berson neilltuol (yn cynnwys yr awdurdod) yn cael ei dderbyn a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 31** | **<u>RHESTR FER – SWYDDOGION JNC</u>**<br><br>Gan ystyried yr farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf budd cyhoeddus sef o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes ei chynnal gan ei bod yn debyg y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 a 13, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2020.<br><br>PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad sy'n cyfeirio at faterion staffio a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |